Datgelu Gwybodaeth

a ddelir gan yr Heddlu

mewn Achosion Teulu yng Ngogledd Cymru

Rhagarweiniad

1. Mae'r Protocol hwn, a wnaed gyda chytundeb y Barnwyr Teulu Dynodedig dros Ogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, ac a gymeradwywyd gan Mr Ustus Hedley, yn nodi'r drefn ar gyfer gwneud cais a chael gwybodaeth berthnasol a ddelir gan Heddlu Gogledd Cymru, gan rai sy'n Bartïon mewn Achosion Teulu yng Ngogledd Cymru. Mae'n nodi'r rhwymedigaethau ar bob Parti i ddarparu'r wybodaeth berthnasol i'r Heddlu cyn gynted â phosibl, a'r mecanwaith ar gyfer gwneud unrhyw gais priodol i'r llys benderfynu materion ynghylch datgelu.

2. Yn fyr, yr amcanion yw:

   a) y dylai ceisiadau am ddatgelu a wneir i'r Heddlu gael eu gwneud yn brydlon, ac y dylent ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol i alluogi'r Heddlu i sefydlu a ydynt yn dal unrhyw wybodaeth, ac os felly, a ydynt am wrthwynebu datgelu'r wybodaeth honno ai peidio;

   b) y bydd yr Heddlu'n ymateb i unrhyw gais yn ddi-oed;

   c) y bydd unrhyw gais i'r llys mewn perthynas â gwrthodiad gan yr Heddlu i ddatgelu gwybodaeth yn cael ei glywed yn ddi-oed a, chyn belled ag y bo'n bosibl, bod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu i'r llys yn y gwrandawiad cyntaf.

3. Seilir y Protocol hwn ar y rhagdybiaeth bod yr holl wybodaeth berthnasol a ddelir gan yr Heddlu ar unrhyw Barti mewn Achos Teulu, a lle y bo'n briodol, ar berson sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r achos ond heb fod yn Barti, i gael ei datgelu oni fo rheswm da neu gyfiawnhad dros ddal y wybodaeth yn ôl. Yn ogystal, y bydd

cydymffurfio â'r Protocol yn lleihau'r angen i geisiadau gael eu gwneud i'r llys ac yn lleihau oedi wrth ymdrin ag achosion yn ymwneud â phlant.

4. I'r Protocol fod yn llwyddiant, y mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gwneud defnydd cywir ohono, drwy wneud ceisiadau cynnar i'r Heddlu a dilyn y canllawiau a nodir yn y protocol ar gyfer darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr Heddlu. Gallai unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Protocol sy'n effeithio'n niweidiol ar bennu amserlen gwrandawiad olygu canlyniadau o ran costau yn erbyn y Parti sy'n methu.

5. Mae gwybodaeth a ddarperir gan yr heddlu yn unol â'r Protocol hwn yn ddarostyngedig i'r amodau penodol canlynol ar ran y Partïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol oni roddir cyfarwyddyd penodol i'r gwrthwyneb gan y llys:-

(i) na fydd unrhyw ddeunydd a ddatgelir yn cael ei ddefnyddio ond i ddibenion yr achos ac er mwyn paratoi ar gyfer yr achos lle y ceisir y datgeliad, oni cheir caniatâd gan y Llys;

(ii) na fydd yn cael ei ddatgelu ond i'r Partïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol ac, yn unol â'r Rheolau Achosion Teulu, i arbenigwyr (yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad a osodir gan y Llys) yn yr achos, oni cheir caniatâd gan y Llys i ddatgelu'n ehangach;

(iii) fel arall, bydd y deunydd yn cael ei gadw'n breifat, yn gyfrinachol ac yn ddiogel, ac ni ddylid gwneud ond y nifer lleiaf posibl o gopïau, er mwyn osgoi creu copïau niferus o ddeunydd sensitif;

(iv) lle ceir fideo Tystiolaeth Orau neu gyfweliad arall wedi'i recordio ar fideo, darperir un copi ar gais cyn gynted ag y bydd ymchwiliadau'r heddlu'n

caniatáu, un ai drwy ddarparu un copi i'r Awdurdod Lleol (os yw'n Barti yn yr achos) neu i'r twrneiod sy'n gweithredu ar ran y Parti sy'n gwneud y cais mewn achosion cyfraith breifat. Ni fydd copïau o gyfweliadau a recordiwyd ar fideo yn cael eu darparu i Bartïon nad oes ganddynt gynrychiolaeth, fodd bynnag, gellir trefnu iddynt weld y fideo drwy i Bartïon heb gynrychiolaeth wneud cais i'r Heddlu. Ni ddylid gwneud ond y lleiaf posibl o gopïau o dystiolaeth fideo a dylai'r Partïon ystyried mynychu'r orsaf heddlu neu adeilad awdurdod lleol priodol er mwyn gweld y dystiolaeth fideo ar amser sy'n gyfleus i'r ddwy ochr. Lle nad yw hyn yn bosibl a bod yn rhaid gwneud copi pellach o'r dystiolaeth, bydd y Parti/Partïon yn talu costau rhesymol yr heddlu mewn perthynas â gwneud copïau oni fo trefniadau eraill wedi'u cytuno rhwng yr heddlu a chynrychiolwyr y Partïon yng nghyswllt gwneud copïau;

(v) mewn perthynas ag unrhyw gyfweliad Tystiolaeth Orau neu gyfweliad arall, bydd cynrychiolwyr y Partïon yn llofnodi ac yn glynu at delerau Ffurflen Safonol Ymrwymiad yr Heddlu (yn Atodiad F) er mwyn atal lledaenu/copïo/defnyddio'r dystiolaeth yn anghyfreithlon. Lle bo modd i Barti ddatgan nad oes angen i'r fideo gael ei gopïo na'i ddarparu ar gyfer ei wylio i ddibenion yr achos, dylai'r Parti ddatgan hynny.

6. Ni fydd yr Heddlu yn trawsgrifio nac yn gwneud trefniadau i drawsgrifio unrhyw gyfweliadau a recordiwyd ar fideo neu ar dâp sain oni fo hyn eisoes wedi'i wneud yng nghyswllt archwiliad neu erlyniad troseddol.

7. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol neu mewn argyfwng gwirioneddol y gellir gwyro oddi wrth y protocol hwn, fel arall rhaid glynu wrtho.

8. I osgoi'r costau sy'n gysylltiedig â dyblygu gwybodaeth ar gyfer gwahanol Bartïon, lle bo'n amlwg bod achos wedi'i gychwyn a bod y wybodaeth eisoes wedi'i darparu i un o'r Partïon cysylltiedig, bydd Heddlu Gogledd Cymru'n nodir hyn ac yn cyfeirio unrhyw geisiadau dilynol am yr un wybodaeth at y sawl a wnaeth y cais gwreiddiol (oni fo'r person a wnaeth y cais gwreiddiol yn berson heb gynrychiolaeth).

9. Rhaid i unrhyw Barti neu gynrychiolydd cyfreithiol sy'n gwneud cais i'r Heddlu ddatgelu gwybodaeth yn unol â'r protocol hwn ("y Parti cychwynnol") hysbysu pob Parti arall cysylltiedig â'r achos neu'r achos arfaethedig, bod cais o'r fath wedi'i wneud ac os bydd unrhyw Barti arall yn dymuno i wybodaeth arall gael ei datgelu yn dilyn hysbysiad o'r fath, yna rhaid i'r cais gael ei wneud drwy'r Parti cychwynnol, ar yr amod nad yw ef neu hi'n Barti heb gynrychiolaeth.

10. Caniateir i Heddlu Gogledd Cymru godi tâl am ddarparu gwybodaeth dan y protocol hwn yn unol â'r rhestr a nodir yn Atodiad E yma.

11. Bydd y protocol hwn yn destun adolygiad o leiaf bob 12 mis gan y Barnwr Teulu Dynodedig ar y pryd yng Ngogledd Cymru.

Y Drefn

A. Cais Ysgrifenedig am Ddatgelu

1. Mae'n hanfodol bod Partïon yn ystyried yn gynnar iawn pa ddeunydd sy'n debygol o fod yn nwylo'r heddlu a allai fod yn berthnasol yn yr achos cyfraith gyhoeddus neu gyfraith breifat y maent yn gysylltiedig ag ef. Pryd bynnag y bo'n bosibl, dylid gwneud cais cynnar am ddogfennau i'r Heddlu cyn unrhyw wrandawiad a chyn i unrhyw gais gael ei wneud i'r llys. Dylid gwneud y cais yn ysgrifenedig gan ddatgan yn union pa dystiolaeth a gwybodaeth a geisir **a phaham ei bod yn berthnasol** yn unol â'r Ffurflen Gais Safonol yn Atodiad B. Dylai'r Ffurflen Gais Safonol gael ei hanfon at swyddog datgelu enwebedig yr heddlu neu gynrychiolydd yr heddlu a nodir yn Atodlen A isod, fel y person y mae unrhyw gais i'w anfon ato neu y dylid cyflwyno unrhyw orchymyn iddo ar gyfer Ardal Heddlu Gogledd Cymru.

2. Bydd yr heddlu'n ymateb i'r cais hwnnw cyn pen 20 diwrnod gwaith (a chymerir nad yw hynny'n cynnwys dyddiau Sadwrn, Sul na Gwyliau Banc) gan nodi:

   (a) bod modd datgelu o fewn y terfynau amser; neu

   (b) bod modd gwneud peth datgelu cyfyngedig o fewn y terfynau amser; neu

   (c) y byddir yn datgelu y tu allan i'r terfynau amser; neu

   (d) na fyddir yn datgelu heb orchymyn llys.

   Os bydd yr heddlu'n hysbysu'r Parti sy'n gwneud y cais nad oes modd iddynt ddatgelu'r dystiolaeth neu'r wybodaeth a geisir heb orchymyn llys, bydd yn rhaid i'r Parti sy'n gwneud y cais wneud cais priodol i'r llys yn unol â Rhan B y Protocol hwn.

B. Paratoi ar gyfer Cais am Ddatgelu

1.1 Ymholiadau Cychwynnol i'r Heddlu

Rhaid i Barti sy'n gwneud cais i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddatgelu mewn achos teulu unrhyw ddogfen, gofnod neu ddeunydd neu wybodaeth arall sy'n dystiolaeth, anfon Ffurflen Gais Safonol (ar ffurf Atodiad B) i Swyddog Datgelu enwebedig yr Heddlu neu gynrychiolydd i'r heddlu a nodir yn Atodlen A isod ar gyfer Ardal Heddlu Gogledd Cymru. Gall y cais adnewyddu neu ailadrodd cais blaenorol a wnaed dan A1 uchod a rhaid iddo nodi'r wybodaeth a ganlyn:

(a) Enwau a dyddiadau geni'r Partïon ac unrhyw blant perthnasol a, lle bynnag y bo'n bosibl, manylion byr o'r amgylchiadau neu'r digwyddiad(au) y gwneir y cais mewn perthynas â hwy;

(b) unrhyw gyfeiriadau perthnasol;

(c) dyddiad(au) a lleoliad(au) y digwyddiad neu'r digwyddiadau penodol y ceisir gwybodaeth yn eu cylch;

(d) cyfeirnod(au) y trosedd, os gwyddys;

(e) enw a rhif "coler" (os gwyddys) y Swyddog(ion) yn yr achos(ion);

(f) natur a pherthnasedd y dogfennau, y cofnodion neu'r deunydd arall sy'n dystiolaeth a geisir;

(g) drafft o'r cyfarwyddyd arfaethedig gan gynnwys y dyddiad erbyn pryd y mae'n debygol y cyfarwyddir datgelu'r dogfennau, y cofnodion neu'r deunydd arall sy'n dystiolaeth (i'w baratoi'n unol â geiriad Cyfarwyddiadau Amrywiol Safonol cyfraith gyhoeddus a atodir yn Atodiad D, lle bynnag y bo'n bosibl);

(h) amserlen debygol ar gyfer y camau cyfreithiol a/neu waith cymdeithasol;

(i) copi o unrhyw grynodeb byr o'r achos a baratowyd yn ystod yr achos;

(k) a oes dyddiad wedi'i bennu gan y llys ar gyfer gwrandawiad terfynol neu wrandawiad i ganfod ffeithiau, ac os felly pa ddyddiad, ac a yw'n debygol y bydd angen i'r swyddog yn yr achos roi tystiolaeth yn y gwrandawiad hwnnw.

1.2 Ymateb yr Heddlu

1. Caiff y Prif Gwnstabl wrthod datgelu *inter alia* pan fo o'r farn:

(a) yr ystyrir y cais yn un afresymol oherwydd natur yr ymholiad neu swm y cofnodion a geisir; neu,

(b) nad yw'r cais yn eglur neu'n ddigon penodol; neu

(c) yr ystyrir bod y wybodaeth a geisir yn rhy sensitif i'w datgelu; neu,

(d) na ellir datgelu'r wybodaeth oherwydd y gallai ddangos bod ymchwiliad yn parhau i fynd rhagddo ac y byddai unrhyw ddatgeliad yn niweidiol i'r ymchwiliad hwnnw, neu am resymau diogelwch gwladol, ac yn yr achos hwnnw bydd yr Heddlu'n gwneud cais heb rybudd i'r Barnwr Teulu Dynodedig, i geisio cyfarwyddiadau, a bydd cyn belled ag y bo'n bosibl, yn gwneud y cais o fewn yr amserlen o 20 diwrnod a ddarparwyd ar gyfer datgelu.

Lle byddir yn gwrthod am resymau (a) i (c) uchod, yna bydd Heddlu Gogledd Cymru'n darparu'r rhesymau gan ddefnyddio'r Ffurflen yn Atodiad J.

2. Lle bo'n amlwg i Heddlu Gogledd Cymru y gallai gwybodaeth berthnasol fod yn nwylo ardal heddlu arall, nodir hyn wrth y person sy'n gwneud cais am y wybodaeth.

Yna bydd yn rhaid i'r sawl sy'n gwneud y cais wneud cais ar wahân i'r heddlu a nodwyd.

3. Pan na fydd y wybodaeth a geisir yn cael ei datgelu gan yr heddlu dan y cytundeb hwn, yna cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, ac o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn unrhyw wrandawiad yr hysbyswyd yr Heddlu ohono adeg gwneud y cais, bydd swyddog datgelu enwebedig yr heddlu'n ateb yn ysgrifenedig, gan nodi'r rhesymau am hyn, a bydd yn datgan, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl:

(a) yn achos ymchwiliad sy'n mynd rhagddo gan yr heddlu, neu achos troseddol cyfredol, a fydd yr heddlu'n ceisio cyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron cyn datgelu, ai peidio. D.S. mewn rhai ymchwiliadau, efallai na fydd yn bosibl nodi diddordeb yr heddlu am resymau gweithredol;

(b) os bydd yr heddlu'n gwrthod datgelu'r dystiolaeth a geisir, y rheswm/rhesymau paham, ac a ragwelir y gellir darparu'r wybodaeth yn nes ymlaen ai peidio;

(c) a ellir darparu'r dogfennau, y cofnodion neu'r deunydd neu wybodaeth arall sy'n dystiolaeth o fewn yr amserlen a gynigiwyd gan y cyfarwyddyd drafft a ddarparwyd;

(d) oni ellir darparu'r dogfennau, y cofnodion neu'r deunydd neu'r wybodaeth arall sy'n dystiolaeth o fewn yr amserlen a gynigiwyd gan y cyfarwyddiadau drafft a ddarparwyd, y rheswm paham na ellir eu darparu ac amserlen arfaethedig ar gyfer eu datgelu;

(e) a yw'r heddlu angen i'r cyfarwyddyd mewn perthynas â datgelu gael ei ddiwygio o ran ei delerau o'r drafft a ddarparwyd, ac os felly, bydd cyfarwyddyd drafft yn cael ei ddarparu;

(f) lle y nodir y gallai plismon orfod rhoi tystiolaeth mewn unrhyw wrandawiad, manylion y dyddiadau pryd y mae'r swyddog hwnnw ar gael, i gynorthwyo gyda phennu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad;

(g) bydd ateb yr heddlu'n cael ei ffeilio gyda'r llys cyn y gwrandawiad gan yr heddlu a'i gyflwyno i'r Parti sy'n gwneud cais;

(h) Caniateir i'r Prif Gwnstabl neu ei gynrychiolydd a/neu gynrychiolydd Gwasanaeth Erlyn y Goron fynychu'r gwrandawiad lle y dylai unrhyw gais i'r heddlu am ddatgeliad gael ei wneud, i wneud sylwadau ar fater datgelu, a chaniateir iddynt gael cynrychiolaeth gyfreithiol os bydd y naill neu'r llall angen hynny.

C. Y Gwrandawiad

1. Oni fo'r Heddlu'n datgelu yn dilyn y cais cyntaf, caiff y Parti sy'n gwneud cais wneud cais i'r llys am wrandawiad datgelu ac, os gwneir cais o'r fath, rhaid iddo roi dim llai na 5 diwrnod gwaith (mae'r term "diwrnod gwaith" yn eithrio dydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc) o rybudd am y gwrandawiad i unrhyw Barti arall a'r Prif Gwnstabl (yn y cyfeiriad a nodir yn Atodlen A), oni fo'r Parti sy'n gwneud y cais yn hysbysu'r Llys yn ysgrifenedig paham fod angen dyddiad cynharach ar gyfer y gwrandawiad a bod y Llys yn cymeradwyo cyfnod byrrach o rybudd.

2. Yn y gwrandawiad lle gwneir cais am ddatgelu, rhaid i'r llys ystyried y canlynol:

(a) yr angen a pha mor berthnasol yw'r wybodaeth y gofynnir iddi gael ei datgelu, i'r materion y mae gofyn iddynt gael eu penderfynu gan y llys;

(b) a fydd y Cyfarwyddiadau Amrywiol Safonol yn berthnasol, ac i ba raddau;

(c) amseriad unrhyw gyfarwyddyd i ddatgelu gan gyfeirio'n benodol at unrhyw sylwadau ysgrifenedig gan yr heddlu dan A2 uchod. Dylai pob cyfarwyddyd i ddatgelu roi digon o amser ar gyfer cydymffurfio, sef 14 diwrnod mewn amgylchiadau arferol;

(d) pa rybudd a roddir ynghylch y gorchymyn llys i ddatgelu ac i bwy y byddir yn cyflwyno'r gorchymyn ac ym mha fodd;

(e) unrhyw gyfarwyddyd angenrheidiol i'r Parti sy'n gwneud y cais am ddatgelu, ynghylch roi rhybudd a chyflwyno'r gorchymyn llys i Bartïon eraill a'r Heddlu yn unol â'r Protocol hwn;

(f) os gorchmynnir datgelu, a fydd y datgelu hwnnw ar delerau, ac os felly, rhaid manylu ar y telerau hynny.

D. Camau yn Dilyn Gwrandawiad

1.1 Bydd y twrnai neu'r Parti digynrychiolaeth sy'n sicrhau'r cyfarwyddyd mewn perthynas â datgelu yn cydymffurfio ar unwaith â'r broses a ddisgrifir ym Mharagraff D 1.2 ac wedi hynny'n sicrhau, cyn pen 24 awr i'r Gorchymyn gael ei selio, bod swyddog datgelu enwebedig yr heddlu neu gynrychiolydd yr heddlu yn ymwybodol o delerau'r cyfarwyddyd a wnaed i ddatgelu.

1.2 Yn dilyn y gwrandawiad cyfarwyddo perthnasol, bydd y twrneiod neu'r Parti digynrychiolaeth a sicrhaodd y cyfarwyddyd i ddatgelu, un ai:

(a) yn cael ar unwaith gan glerc y llys gopi wedi'i selio o'r gorchymyn ar y telerau a gymeradwywyd; neu

(b) cyn pen 24 awr wedi i'r gorchymyn gael ei wneud, mynd i swyddfa'r llys gyda'r gorchymyn a gymeradwywyd ar y telerau a gytunwyd (neu, os nad yw'n ymarferol ar unwaith i fynd i swyddfa'r llys, yna anfon copi drwy Ffacs) a threfnu gyda Rheolwr yr Adran Deulu (neu unrhyw gynrychiolydd arall o wasanaeth y llys a enwebir gan Reolwr yr Adran Deulu), er mwyn i'r gorchymyn gael ei lunio a'i selio ar unwaith.

Cyfeiriad ar gyfer Cyflwyno Gorchymyn: Atodlen A

Uned Ddatgeliadau Heddlu Gogledd Cymru,

Uned Gweinyddu Cyfiawnder,

Ffordd Victoria,

Prestatyn,

LL19 7TD

Rhif ffôn: 01745 880173 / 859631 / 859649

Ffacs: 01745 859627

Atodiad A

Tystiolaeth Plentyn sy'n Dyst a Recordiwyd ar Fideo
Ymrwymiad Cyfrinachedd

MAE {Twrnai} ..... yn ymrwymo fel a ganlyn:

1. I dalu costau rhesymol yr heddlu wrth ddarparu copïau o'r recordiad y cyfeirir ato yn y gorchymyn ("recordiad")

2. I beidio achosi na chaniatáu i unrhyw gopïau pellach o'r recordiad gael eu gwneud

3. I gadw'r recordiad mewn cynhwysydd diogel, dan glo, pan nad yw'n cael eu ddefnyddio neu ei gludo

4. I wneud ei ymdrech orau ef/hi i sicrhau y cedwir y recordiad yng ngofal personol un oedolyn wrth iddo gael eu gludo, a pheidio â rhoi'r recordiad yn nwylo Swyddfa'r Post nac unrhyw gludydd masnachol

5. Rhyddhau'r recordiad i'r canlynol yn unig:
   (a) Bargyfreithwyr a gyfarwyddwyd yn yr achos
   (b) unrhyw arbenigwr a awdurdodwyd gan y llys i baratoi adroddiad i'w defnyddio gan y llys
   (c) aelod awdurdodedig o'r Panel Trawsgrifio Tapiau i ddibenion paratoi trawsgrifiad o recordiad i'w ddefnyddio yn yr achos
   (d) unrhyw berson arall gyda chaniatâd y llys yn unig

6. I'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson y rhyddheir y recordiad iddo lofnodi ffurflen o ymrwymiad ar yr un telerau â'r ymrwymiad hwn.

7. Gwneud yr ymdrech orau ar ei ran ef/hi i sicrhau bod y recordiad yn cael ei ddychwelyd i'w berchnogaeth bersonol ef/hi cyn pen 28 diwrnod wedi iddo gael ei ryddhau i unrhyw berson

8. Caniatáu i'w gleient ef/ei chleient hi edrych ar y recordiad yn ei eiddo proffesiynol ef/hi yn unig, ac yn ei bresenoldeb ef/hi

9. Dychwelyd y recordiad i'r heddlu ar unwaith, cyntaf y bydd ef/hi gorffen derbyn cyfarwyddiadau yn y mater hwn a chyn pen 7 diwrnod o ddyddiad gwrandawiad terfynol y mater, beth bynnag.

10. Cadw'r cofnod ysgrifenedig o enw unrhyw berson y caniateir mynediad at y recordiad iddo, a dyddiad mynediad o'r fath

Atodiad B

YN GYFYNGEDIG AR ÔL EI GWBLHAU

Ffurflen Gais Safonol am Ddatgelu Gwybodaeth yr Heddlu

DYLAI'R FFURFLEN HON GAEL EI LLENWI GAN Y TWRNAI ARWEINIOL NEU UWCH SWYDDOG CAFCASS AC YN UNOL Â'R PROTOCOL A GYTUNWYD

Ni fydd gwybodaeth yr Heddlu'n cael ei datgelu oni fo ystyriaethau pwysig o ran buddiannau cyhoeddus i gyfiawnhau gwyro oddi wrth reol gyffredinol cyfrinachedd. Mae'r ystyriaethau hyn yn cynnwys amddiffyn aelodau bregus o gymdeithas. Mae'r wybodaeth a geisir isod yn cael ei darparu ar y ddealltwriaeth gadarn nad yw gwybodaeth o'r fath i'w defnyddio ond gan y llysoedd. Fe'i cedwir yn gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei defnyddio i unrhyw ddiben arall.

HYSBYSIAD YMLAEN LLAW O GAIS AM WYBODAETH

Cais gan

Enw

_____

Cyfeiriad cyswllt:

_____

Rhif Ffôn Cyswllt:

Rhif Ffacs: _____ _____

Cyfeiriad E-bost

_____

ACHOS YN MYND RHAGDDO YN (os yw wedi dechrau) _____

UCHEL LYS/ LLYS SIROL/ LLYS ACHOSION TEULU *(dileer fel y bo'n briodol)*

RHIF YR ACHOS _____

Mae dyddiad y gwrandawiad nesaf yn yr achos hwn wedi'i restru ar gyfer _____

Pan fo achos eisoes yn mynd rhagddo yn y llysoedd, byddwch gystal â chynnwys crynodeb neu fanylion byr o'r achos a fydd yn cynorthwyo'r heddlu i benderfynu pa mor berthnasol yw unrhyw wybodaeth a ddelir.
Dylid rhoi hysbysiad ymlaen llaw o achos teulu a dylid gwneud unrhyw gais am wybodaeth cyn gynted â phosibl ac ***o leiaf 20 diwrnod gwaith cyn dyddiad y llys***

Gwneir pob ymdrech i ddarparu'r wybodaeth o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad y llys

PWRPAS Y WYBODAETH *(Rhowch gylch fel sy'n briodol)*
Ymholiadau'n gysylltiedig ag:

Achos Gofal

Achos Teulu Arfaethedig

Cais am Orchymyn Preswyliaeth / Anheddu

Cais am Orchymyn Peidio â Molestu

Achos Teulu Arall *(rhowch fanylion)* _____

Atodiad C

Manylion y Wybodaeth a geisir
Asiantaeth/Swyddog sy'n Gwneud y Cais. (I gynnwys rhif ffôn, ffacs ac e-bost). Datgelir i un cynrychiolydd i'w ddosbarthu i'r Partïon.
Amlinelliad o'r Amgylchiadau'n arwain at yr achos a'r rheswm am y cais. (I gynnwys gorchmynion llys a dyddiadau lle bo'n berthnasol).
Gwybodaeth a geisir: (I gynnwys pwrpas a pherthnasedd y wybodaeth/digwyddiad).
Enwau llawn y plant: (i gynnwys dyddiadau geni)
Manylion y Partïon gan gynnwys unrhyw breswylwyr eraill mewn cyfeiriad perthnasol: (I gynnwys: enwau llawn; dyddiadau geni; enwau blaenorol; y berthynas i'r plant; hanes cyfeiriadau perthnasol presennol a blaenorol gyda dyddiadau bras).

Manylion y Cynrychiolwyr Cyfreithiol cysylltiedig: (i gynnwys enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt).

*****Defnyddiwch y daflen barhad os bydd angen *****

Taflen barhad.

Manylion y wybodaeth ar gael gan Heddlu Gogledd Cymru

Cronfeydd Data

Systemau Gweithredol Presennol.
PNC. Dyma gronfa ddata genedlaethol yr Heddlu sy'n darparu hanes euogfarnau troseddol pobl. (Sylwer: Gellir anfon gwybodaeth PNC ar yr un diwrnod ag y derbynnir y cais os bydd angen).
System Gorchymyn a Rheoli ICAD: Yn rhoi manylion digwyddiad, hysbysydd a log o Ymateb yr Heddlu. Yn weithredol o fis Mai 03.
RMS: System cofnodi Digwyddiadau a Gwybodaeth. Yn rhoi manylion cofnodion y Ddalfa, rheolaeth Digwyddiad/Troseddau a Gwybodaeth. Mae gwybodaeth arall yn y broses o gael ei diweddaru a'i rhoi ar y system gan gynnwys ffeiliau Diogelu Teulu.
HOLMES: Mae'r system hon yn darparu manylion Ymchwiliadau Mawr i droseddau difrifol. Nodyn: ni cheir ond mynediad cyfyngedig i'r system hon.

Systemau wedi'u Harchifo.
ICRIS: System Wybodaeth a oedd yn weithredol o 1996 i 2005.
OIS: System Gorchymyn a Rheoli flaenorol a oedd yn weithredol o 1994 i Mai 2003. Noder: ni cheir ond mynediad cyfyngedig i'r gronfa ddata hon.
Troseddau: System gofnodi ac adrodd ar droseddau a oedd yn weithredol o Fawrth 1997 i Fawrth 2005.
Hen Droseddau: Manylion troseddau a riportiwyd rhwng 1991 a Chwefror 1997. Noder: Nid yw'r gronfa ddata hon yn darparu ond manylion sylfaenol ynghylch troseddau a gofnodwyd rhwng y dyddiadau hynny ac ni cheir ond mynediad cyfyngedig.

Ffynonellau Eraill:
Ffeiliau Diogelu Teulu: Cedwir y rhain mewn pedair Swyddfa Diogelu Teulu yn Ardal Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r ffeiliau'n cynnwys hanes manwl am deuluoedd a materion yn ymwneud â lles y plant. Gallai'r ffeiliau hyn hefyd gynnwys deunydd sy'n dystiolaeth yn ymwneud ag ymchwiliadau i gam-drin plant. Yn gyffredinol, ffeilir y rhain dan enw'r plentyn.
Ffeiliau Troseddau: Er bod rhai ffeiliau'n cael eu sganio, mae'r rhan fwyaf o adroddiadau Troseddau'n ffeiliau papur. Yn gyffredinol, cedwir y ffeiliau hyn am gyfnod o chwe blynedd oni fyddant wedi'u dosbarthu'n rhai difrifol; fodd bynnag, oherwydd oedran a phroblemau storio, efallai na fyddant ar gael.

Nodyn: Rhaid anfon pob cais i Adran Ddatgeliadau'r Heddlu, ac fe'u gwrthodir oni fyddant yn cydymffurfio â'r protocol cytunedig.

Atodiad E

MANYLION YR ARCHWILIADAU HEDDLU A GEISIR A'R FFIOEDD TALADWY:

Gwybodaeth	Ceisiwyd	Pwrpas y Cais	Ffi daladwy
Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (Hanes Blaenorol)			£15.00 (am bob enw a ymchwilir)
Crynodeb o Amgylchiadau'n ymwneud ag Un Digwyddiad Penodol			£20 Am y chwiliad cyfan
Crynodeb o bob digwyddiad o drais yn y cartref rhwng partïon			£30 Am y chwiliad cyfan
Crynodeb o wybodaeth ar ffeil droseddol (Heb fod yn ddomestig)			£30 Am y chwiliad cyfan
Tapiau cain			£25 y copi
Cyfweliadau ar Fideo			£75 y copi
Copïau o Ddatganiadau			£26 y copi
Lluniau			£22.85 am y llun 1af a £2.67 am bob llun dilynol

Atodiad F

YMRWYMIAD - I'W LENWI GAN Y TWRNAI ARWEINIOL

Yr wyf wedi gwneud cais am gopïau o bob deunydd perthnasol (fel y rhestrir uchod) mewn perthynas ag achos yn ymwneud â (Enw'r Ceisydd / Atebydd)

Deallaf fod gofyn talu'r ffi briodol i Heddlu Gogledd Cymru cyn i'r deunydd a geisir gael ei ddatgelu

Yr wyf yn ymrwymo fel a ganlyn:

1) Y byddaf yn sicrhau y cedwir y deunyddiau bob amser dan amodau diogel ac nas gadewir heb oruchwyliaeth mewn cerbydau neu heb eu diogelu fel arall
2) Y byddaf yn sicrhau bod copïau dros ben o'r deunyddiau yn cael eu dinistrio ar derfyn yr achos ac na chedwir ond un copi wedi'i archifo gyda phapurau'r achos. Bydd papurau wedi'u harchifo'n cael eu cadw'n ddiogel.

3) Ni fyddaf yn rhyddhau'r deunyddiau nac yn cyflenwi copïau o'r deunyddiau i unrhyw berson ac eithrio:
   a. Y Llys
   b. Y gweithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud â'r plentyn / plant
   c. Bargyfreithwyr a gyfarwyddwyd gennyf i / gan y llys
   d. Gwarcheidwad / Arbenigwyr a gyfarwyddwyd gennyf i
   e. Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
   f. Eraill – dan gyfarwyddyd y Llys

Pan ryddheir y wybodaeth, bydd yn ofynnol i'r Parti sy'n ei dderbyn, ac eithrio'r Llys, lofnodi'r ffurflen gymeradwy o ymrwymiad (Atodiad B). Byddaf yn cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw berson y rhyddheir y wybodaeth iddo/iddi.

4) Ni fyddaf dan unrhyw amgylchiadau'n darparu copi o'r deunyddiau a gyflenwyd ar gyfer eu cadw gan fy nghleientiaid, oni chymeradwyir hynny gan y Llys.

Dyddiedig _____

Llofnodwyd _____

*Anfonwch y ffurflen gais **DRWY'R POST** – at sylw:*
Uned Ddatgeliadau Heddlu Gogledd Cymru, Uned Gweinyddu Cyfiawnder, Ffordd Victoria, Prestatyn, LL19 7TD

Noder, os gwelwch yn dda – ni fydd chwiliadau'n cychwyn hyd nes i'r cais gael ei gwblhau'n llawn.

Atodiad G

YMRWYMIAD - I'W LENWI GAN DWRNAI/TWRNEIOD Y PARTI ARALL

_____(Cyfeirnod yr Heddlu, os gwyddys)

_____(Enw'r Ceisydd/Atebydd)

Pan dderbyniaf y wybodaeth a ddarperir gan

_____(Manylion y **Twrnai Arweiniol**)

Yr wyf yn ymrwymo fel a ganlyn:

1) Y byddaf yn sicrhau y cedwir y deunyddiau bob amser dan amodau diogel ac nas gadewir heb oruchwyliaeth mewn cerbydau neu heb eu diogelu fel arall

2) Y byddaf yn sicrhau bod copïau dros ben o'r deunyddiau yn cael eu dinistrio ar derfyn yr achos ac na chedwir ond un copi wedi'i archifo gyda phapurau'r achos.

3) Ni fyddaf yn rhyddhau'r deunyddiau nac yn cyflenwi copïau o'r deunyddiau i unrhyw berson ac eithrio:
   a. Y Llys
   b. Y gweithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud â'r plentyn / plant
   c. Bargyfreithwyr a gyfarwyddwyd gennyf i / gan y llys
   d. Gwarcheidwad / Arbenigwyr a gyfarwyddwyd gennyf i
   e. Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
   f. Eraill – dan gyfarwyddyd y Llys

   Pan ryddheir gwybodaeth i unrhyw Barti a restrir uchod, ac eithrio'r Llys, rhaid i'r Parti sy'n derbyn gytuno i gadw'r wybodaeth yn ddiogel, peidio â'i datgelu ymhellach a dinistrio'r wybodaeth ar derfyn yr achos.

4) Ni fyddaf dan unrhyw amgylchiadau'n darparu copi o'r deunyddiau a gyflenwyd ar gyfer eu cadw gan fy nghleientiaid.

Dyddiedig _____

Llofnodwyd_____(y twrnai derbyn)

WEDI IDDI GAEL EI LLENWI, ANFONWCH Y FFURFLEN HON AT: **Uned Ddatgeliadau Heddlu Gogledd Cymru, Uned Gweinyddu Cyfiawnder, Ffordd Victoria, Prestatyn, LL19 7TD**

Atodiad H

Cyfarwyddiadau Amrywiol Safonol yn ymwneud â Datgelu Gwybodaeth gan yr Heddlu

DD: Datgelu Dogfennau Llys a chan Asiantaethau Eraill

DD1 *Achos troseddol a gwblhawyd yn erbyn Parti*

Bydd y twrneiod dros (*nodwch y Parti*) yn ffeilio ac yn cyflwyno erbyn (amser/dyddiad) copïau o'r (noder y dogfennau e.e. *ditiadau/ datganiadau tystion/ unrhyw sail ple ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r llys/ adroddiad(au) cyn dedfrydu a baratowyd gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/ac adroddiadau eraill gerbron y llys/trawsgrifiad o sylwadau'r barnwr wrth ddedfrydu*) mewn perthynas â'r achos yn Llys y Goron (cynhwyswch Rif Calendr), y dedfrydwyd ef/hi mewn perthynas ag ef ar (noder y dyddiad) (ynghyd ag unrhyw gofnod o euogfarnau blaenorol).

DD2 *Achos troseddol yn erbyn person nad yw'n Barti*

Gofynnir i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddatgelu ar unwaith (*neu nodi terfyn amser*) i (*noder awdurdod lleol neu Barti*):-
(a) Copïau o ddatganiadau tystion/ cofnodion cyfweliadau/taflen gyhuddo/arall yn ymwneud ag erlyn (*noder y person perthnasol*) yn unol â'r gŵyn a wnaed gan (*noder y person perthnasol/Parti*) yn codi o'r digwyddiad (*noder y digwyddiad a'r dyddiad(au*); a
(b) Chopïau o gofnodion pob/unrhyw gwynion a gofnodwyd o achosion o gam-drin yn y cartref rhwng (*noder y person neu'r Partïon dan sylw*).

DD3 *Rhyddid i wneud cais*

Rhoddir rhyddid i wneud cais heb roi llai na 48 awr o rybudd i'r Prif Gwnstabl pe cyfyd unrhyw wrthwynebiad i ddatgelu'r wybodaeth y gofynnir amdani ym mharagraff (*rhowch rif y paragraff*).

DD4 *Ymchwiliad troseddol sy'n mynd rhagddo*

Gofynnir i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddatgelu i'r awdurdod lleol erbyn (amser/dyddiad) bob datganiad/cofnodion mewn llyfrau nodiadau poced/trawsgrifiad o gyfweliadau/lluniau/ a deunyddiau eraill (*manyler*) ym mherchnogaeth yr heddlu yn ymwneud ag ymchwiliad o honiadau a wnaed gan (*enwer y person*) gyda rhyddid i'r Prif Gwnstabl wneud cais i amrywio'r gorchymyn hwn gan roi o leiaf 48 awr o rybudd (*neu manyler*).

DD5 *Datgelu dogfennau llys i'r heddlu*

Rhoddir caniatâd i'r awdurdod lleol ddatgelu ar unwaith gopïau o ddatganiadau/adroddiadau'r (*Noder y Partïon/personau*) i Heddlu Gogledd Cymru.

DD6 *Cyflwyno gorchymyn i'r heddlu*

Rhaid i'r awdurdod lleol/twrnai'r plant/arall gyflwyno copi o'r gorchymyn hwn i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar unwaith

DD7 *Cyflwyno cofnodion heddlu a ddatgelwyd – cam-drin yn y cartref*

Bydd yr awdurdod lleol yn ffeilio ac yn cyflwyno erbyn (amser/dyddiad) gopïau o ddogfennau a chofnodion yn ymwneud â chwynion i'r heddlu ynghylch achosion o gam-drin yn y cartref (*noder y person/Partïon*) pan dderbynnir hwy gan y Prif Gwnstabl

DD8 ***Cofnodion achos o drais yn y cartref***

Gofynnir i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddatgelu i'r <Parti> erbyn 4pm ar <Dyddiad> bob cofnod neu wybodaeth berthnasol arall ym meddiant yr heddlu yn ymwneud â phresenoldeb mewn perthynas â chwynion yn ymwneud ag achosion o gam-drin yn y cartref yn y cyfeiriad lle'r oedd <Enwer y personau> sef <Cyfeiriadau> rhwng <Dyddiad> a <Dyddiad> Rhoddir caniatâd i'r Prif Gwnstabl wneud cais i amrywio'r gorchymyn hwn drwy wneud cais i < Barnwr Rheoli Achos> gan roi dim llai na 48 awr o rybudd.

DD9: Cais Cyffredinol am Ddatgelu

Gofynnir i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ddatgelu ar unwaith (*neu nodi terfyn amser*) i (*noder y derbynnydd)*, euogfarnau ac unrhyw wybodaeth berthnasol heb fod am euogfarnau a ddelir gan Heddlu Gogledd Cymru yn erbyn y Partïon a nodir yn y Gorchymyn hwn.

Atodiad J

Heddlu Gogledd Cymru
Protocol Datgelu mewn Achosion Teulu
Hysbysiad Gwrthod

Achos:

Twrnai/Asiantaeth a wnaeth gais am Ddatgelu:

Dyddiad derbyn:

☐ **Fydd modd i ni brosesu'r cais uchod am y rheswm canlynol:**

Ni roddwyd enw'r Plentyn/Plant:

Dyddiadau Geni ar goll:

Hanes cyfeiriadau yn anghyflawn

☐ **Rheswm/Rhesymau Eraill:** (manylion isod)

I.

II.

III.

IV.

Gwrthodwyd Gan: **Llofnod:** **Dyddiad:**

Heddlu Gogledd Cymru/ Protocol Datgelu mewn Achosion Teulu Holiadur Gwerthuso

Wedi'i gwblhau, dylid anfon yr holiadur hwn at Swyddog Datgelu/Diogelu Data canolog yr Heddlu sy'n casglu gwybodaeth yn fisol

RHAN A – *manylion yn ymwneud ag ardal yr heddlu sy'n ymdrin â'r cais am wybodaeth a tharddiad y cais*

Uned Heddlu:
Cyfeiriad:
Cyfeirnod yr Heddlu (cyfeirnod gohebiaeth) [*dileer fel sy'n briodol*]
Llys / Cyfeirnod Achos Perthnasol (os yn berthnasol):
Cynghorydd Cyfreithiol yr Awdurdod Lleol
Twrnai ar ran y Tad/ Fam / Arall
[*e.e. gwarcheidwad*]
Beth yw Tarddiad y Cais?
[v *ticiwch bob un sy'n berthnasol***]**
Twrnai ar ran y Plentyn
Cam-drin / Amddiffyn Plant
Cam-drin yn y Cartref
Pa Fath o Achos y mae'r Cais am Wybodaeth yn Ymwneud ag Ef?
[v *ticiwch bob un sy'n berthnasol*]
Y ddau
A ydych chi'n codi ffi am unrhyw ddatgeliad / rhai eitemau / ddim yn codi ffi?
[*dilëwch fel y bo'n briodol*]
A wnaethoch chi ddychwelyd y cais tra'n aros i'r ffi gael ei thalu? DO / NADDO / ddim yn berthnasol

RHAN B – *Ar ba gam yn y broses y derbyniodd yr Heddlu'r cais am wybodaeth*
Dan Ba Un o'r Categorïau Canlynol y daw'r Cais Hwn?
[v *ticiwch fel y bo'n briodol***]**
1. Cais Cyntaf am Wybodaeth 'Cyn yr Achos'
2. Cais Ffurfiol am Wybodaeth o Leiaf 10 Diwrnod cyn Gwrandawiad Cyfarwyddo a restrwyd ar gyfer Gorchymyn Datgelu
3. Gorchymyn Llys – Heb ddim Ffurflen Gais Ymlaen Llaw

RHAN C – *cydymffurfio â chais neu orchymyn i ddatgelu*
A Ymatebwyd i'r Cais am Wybodaeth gyda Ffurflen Ymateb o fewn y cyfnod penodedig o bum niwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn?
DO / NADDO
A Ymgynghorwyd â Gwasanaeth Erlyn y Goron cyn penderfynu peidio â datgelu? (oherwydd bod ymchwiliad troseddol yn mynd rhagddo)
DO / NADDO
A oedd angen cynrychiolaeth yr Heddlu mewn Gwrandawiad Cyfarwyddo? OEDD / NAC OEDD
A godwyd tâl arnoch am unrhyw gais [i amrywio gorchymyn neu ei roi o'r naill du]? DO / NADDO
Dyddiad Llenwi'r Holiadur